Rhif 6 Gorffennhaf 2025

Un Llais Cymru
One Voice Wales

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

## Cronfa Hanfodion Banciau Bwyd Asda

Mae'r Gronfa hon yn benodol ar gyfer mudiadau sydd â'r pwrpas craidd o ddosbarthu bwyd a lliniaru tlodi bwyd yn eu cymuned leol.
Wrth ymateb i'r argyfwng costau byw parhaus, a'r galw trwm am fanciau bwyd a darparwyr bwyd, mae'r grant hwn yn helpu talu am eu hanghenion sylfaenol. Nid yw'r grant hwn ar gael i gyrff cyhoeddus, ond mae hwn yn gyfle i weithio mewn partneriaeth – gofynnir ichi rannu'r wybodaeth hon.

Mae'r **Moondance Foundation**

yn cynnig grantiau i fudiadau ac achosion sy'n creu newidiadau trawsnewidiol mewn cymunedau yng Nghymru.

## Cronfa Pride Llawr Gwlad a Grantiau Cydraddoldeb a Chynhwysiad ar gyfer 2025–2026.

Mae Cronfa Llawr Gwlad Pride wedi helpu am y tair blynedd diwethaf i gynnal digwyddiadau Pride ar hyd a lled Cymru er mwyn cefnogi ac ymgysylltu â phobl LHDTC+ a chymunedau ehangach.
ebost: pridefund@pridecymru.com

## Cyfleoedd Rhanbarthol

### Cronfa Cydlyniad Cymunedol Cwm Taf

Mae gan Gronfa Cydlyniad Cymunedol Cwm Taf ychydig o arian grant bach ar gael (hyd at £2000) i ddatblygu prosiectau sy'n helpu dod â chymunedau at ei gilydd yn ddiogel, gan sicrhau y gall grwpiau fanteisio ar gynlluniau sy'n hyrwyddo cymunedau cydlynol.

### Cynllun Grant Newydd i Fynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb Bwyd ym Mro Morgannwg

Grant Bwyd, Tegwch, Amrywiaeth & Chynhwysiad. £2500 ar gyfer prosiectau sy'n sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn gallu derbyn bwyd iachus, fforddiadwy a diwylliannol berthnasol.

### Grant Lleoedd Cynnes Bro Morgannwg a Grant Gwella Mynediad at Fwyd

Mae'n ceisio helpu cymunedau i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd trwy gefnogi prosiectau sy'n gwella gallu pobl i gael bwyd iachus, maethlon ac yn cynnig lle diogel i bobl ymgynnull, cymdeithasu a manteisio ar wasanaethau cefnogi, gan leihau unigrwydd cymdeithasol a rhoi sylw i bryderon yn y gymuned.

### Bydd Cynllun Grantiau Cymunedol DLL

yn rhoi cyfle i fudiadau a chlybiau llai yn Sir Ddinbych wneud cais am arian cyfalaf i gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau lleol ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon.

# GRANTIAU & CHYFLEOEDD ARIANNOL POSIB

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Cronfa Plannu Coed Network Rail

Mae grantiau rhwng £2,500 a £10,000 ar gael trwy Gronfa Plannu Coed Cymunedol Network Rail.

## Cronfa Estyn Allan

Mae grantiau rhwng £250 a £2,500 ar gael i gefnogi tymor newydd o blannu coed cymunedol.

## Cronfa Achub Natur

Mae'r arian yn cynnwys cadwraeth natur, cymunedau cynaliadwy (prosiectau tyfu cymunedol ar gyfer mudiadau sy'n arbenigo ar ail-gylchu ac atgyweirio) ac ynni adnewyddadwy.

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cronfa Rhwydweithiau Natur

Mae'r gronfa hon, sy'n cynnig grantiau o £50,000 i £1 miliwn, yn anelu at gryfhau gwytnwch y rhwydwaith o dir a safleoedd morol gwarchodedig yng Nghymru ac adeiladu gallu mudiadau i gyflymu adferiad natur a gweithio gyda chymunedau.

## Cronfa Lleoedd Cynnes Cymunedol

Bydd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleoedd Cynnes yn cael ei ddosbarthu cyn bo hir ar draws ardaloedd lleol i gefnogi mentrau cymunedol yn ystod y misoedd oeraf. Bydd eich Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol yn ei ddarparu maes o law.

Gall mudiadau yng Nghymru wneud cais erbyn hyn i Gronfa Arloesi Wythnos Oedolion sy'n Ddysgwyr.

Mae'r gronfa yn anelu at gefnogi creu sesiynau blasu rhad ac am ddim, digwyddiadau dysgu, gweithgarwch allestyn, dosbarthiadau meistr, llais y dysgwr neu weithgareddau dan arweiniad teuluoedd.

## Little Lives UK

Rhoi terfyn ar dlodi technoleg trwy ddarparu cyfrifiaduron, tabledi, ac offer trydanol arall, trwy ddarparu rhoddion technoleg i ysgolion, clybiau ieuenctid, elusennau, a mudiadau eraill sy'n gweithio'n agos â phlant ledled gwledydd Prydain.

## Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

**Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**

**Cyllido Cymru**